

Kier Construction Western & Wales

# The Bevan Health & Wellbeing Centre

ISSUE 07

Llywodraeth Cymru Welsh Government

GIG CYMRU NHS WALES Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan University Health Board

**Welcome to the seventh joint edition of The Bevan Health and Wellbeing Centre newsletter from Kier Construction Western and Wales, in partnership with Aneurin Bevan University Health Board (ABUHB).**



## PROJECT UPDATE

As most of you would have seen, the new Bevan Health and Wellbeing Centre is now open and operating. The building is a fantastic facility, and is one that Kier is incredibly proud to have been involved in. Every member of the project team has a great sense of pride in having contributed to this new facility for the community of Tredegar.

The completion of the new building marks the conclusion of Phase 1 of the overall development at the old Tredegar Hospital site and works have now commenced on Phase 2. Phase 2 involves the demolition of the old Tredegar Health Centre and construction of the new car parks. The demolition is well underway, and the heavy plant is now on site and working on taking down the main structure of the old building. Demolition is expected to run until the end of April 2024. Site preparation and ground improvement works then follows, taking place throughout May. The construction of the retaining walls and car parks themselves will be taking place during the summer.

The car park for The Bevan Health & Wellbeing Centre is the final phase of the development. To help accommodate parking when the centre first opens, we are moving services into the centre on a phased approach. We have an agreement with the recreation ground car park a few minutes down the road where patients and staff can park. Please allow additional time to arrive for your appointment to walk to the Health & Wellbeing Centre.

We would like to take this opportunity to thank the community for their continued support and patience while the works move into these final months. We look forward to fully completing the scheme in the Autumn of 2024.

## Meet the team....



**Richard Hamlin**
Project Manager



**Andrew Teague**
Site Manager



**Jessica O'Donnell**
Community Benefits Coordinator



**Lorraine Morgan**
ABUHB Programme Manager



**Carolyn Frame**
ABUHB Primary Care Communications & Engagement Manager



**Julie Coughlin**
ABUHB Primary Care & Community Estates Project Manager





*"So pleased to see how lovely the building is inside"*

*"This building is amazing! Just standing here makes me feel uplifted. So light and lovely!"*

*"So proud to have this building in Tredegar"*

*"Nye Bevan made his first speech just down the road from here, on the balcony of the old NCB building. How fitting to have this beautiful building as a tribute to him – an amazing man, an amazing building!"*

*"Beautiful building, excellent service, and lovely staff."*

*"So lovely for the people of Tredegar and wider community of Blaenau Gwent."*

*"I love that the original hospital doors are still here – beautiful."*

## MARKET PLACE EVENT

On the 5th of March, The Bevan Health and Wellbeing Centre welcomed residents and representatives of Tredegar Town Council for a venue tour and visit to the first market place event. The tour provided an opportunity for all to view the facilities available at the centre and ask any questions.

Stall holders included Aneurin Leisure, Health Visiting, Family Information Service, Gwent Association of Voluntary Organisations, Expert Patient Programme, Llais and Age Cymru. Each stall prepared literature on their services, which was available to take away. Stall holders also used this as an opportunity to network with each other and make contacts to further enhance their services.

We were joined by the The Goldies, a sing along group based in Tredegar, who performed a few songs for everyone to join in with. We were also joined by Kids R Us who showcased their intergenerational choir with some of their new songs. Both performances brought the centre to life, demonstrated the purpose of the social steps and helped encapsulate the 'wellbeing' aspect of the centre.

Future market place events will be held for the general public to access information on support services available at The Bevan Health and Wellbeing Centre.



For further information or to get involved in future events, please contact: victoria.price2@wales.nhs.uk

## SERVICES

Since the opening of The Bevan Health and Wellbeing Centre earlier this year, the following clinics are now running from the centre:

- Midwifery
- Child Adolescent Mental Health Service (CAMHS)
- Aneurin Bevan Specialist Drug and Alcohol Service
- Health Visitors
- Lymphoedema
- Community Speech and Language Therapy
- LAC / School nursing
- Audiology
- Dental



Kier Construction Cymru a'r Gorllewin

# Canolfan Iechyd a Lles Bevan

RHIFYN 07

**Croeso i'r seithfed rhifyn o newyddlenni Canolfan Iechyd a Lles Bevan ar y cyd gan Kier Construction Cymru a'r Gorllewin a Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan (BIPAB).**



## NEWYDDION AM Y PROSIECT

Fel y bydd y rhan fwyaf ohonoch wedi gweld, mae Canolfan Iechyd a Lles Bevan wedi agor, ac mae'n gweithredu erbyn hyn. Mae'r adeilad yn gyfleuster bendigedig, ac yn un y mae Kier yn hynod falch o fod wedi chwarae rhan ynddo. Mae pob aelod o dîm y prosiect yn ymfalchïo'n fawr yn eu cyfraniad wrth greu'r cyfleuster newydd yma ar gyfer cymuned Tredegar.

Mae cwblhau'r adeilad newydd yma'n cau pen y mwdwl ar Gam 1 yn natblygiad cyffredinol safle hen Ysbyty Tredegar, ac mae'r gwaith wedi dechrau ar Gam 2. Mae Cam 2 yn cynnwys dymchwel hen Ganolfan Iechyd Tredegar ac adeiladu'r meysydd parcio newydd. Mae'r gwaith dymchwel wedi hen gychwyn, ac mae'r peiriannau trwm ar y safle ac yn gweithio i ddymchwel prif strwythur yr hen adeilad. Disgwylir i'r gwaith dymchwel redeg tan ddiwedd Ebrill 2024. Bydd y gwaith o baratoi'r safle a gwella'r tir yn dilyn wedyn, a bydd hynny ar droed trwy gydol mis Mai. Caiff y gwaith i adeiladu'r waliau cynnal a'r meysydd parcio eu hunain ei gyflawni dros yr haf.

Maes parcio Canolfan Iechyd a Lles Bevan yw'r cam olaf yn y datblygiad. Er mwyn hwyluso parcio yn y cyfnod cynnar yma, byddwn ni'n symud gwasanaethau i mewn i'r ganolfan yn raddol bach. Mae gennym gytundeb gyda maes parcio'r maes chwarae, sydd ychydig funudau o gerdded i ffwrdd, fel y gall cleifion a staff barcio yno. Cofiwch ganiatáu digon o amser i gerdded i'r Ganolfan Iechyd a Lles mewn pryd ar gyfer eich apwyntiad.

Hoffem fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i'r gymuned am eu cefnogaeth a'u hamynedd parhaus wrth i'r gwaith symud i mewn i'r misoedd olaf yma. Edrychwn ymlaen at gwblhau'r cynllun yn ei gyfanrwydd yn hydref 2024.

## Cwrdd â'r tîm...



**Richard Hamlin**
Rheolwr y Prosiect



**Andrew Teague**
Rheolwr y Safle



**Jessica O'Donnell**
Cydlynydd Buddion Cymunedol



**Lorraine Morgan**
Rheolwr Rhaglen BIPAB



**Carolyn Frame**
Rheolwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu Gofal Sylfaenol BIPAB



**Julie Coughlin**
Rheolwr Prosiect Gofal Sylfaenol ac Ystadau Cymunedol BIPAB





*"Mor falch o weld pa mor hyfryd yw'r tu fewn i'r adeilad"*

*"Mae'r adeilad yma'n anhygoel! Mae jyst sefyll yma'n codi fy nghalon. Mae hi mor olau a braf!"*

*"Mor browd fod yr adeilad yma yn Nhredegar"*

*"Gwnaeth Nye Bevan ei araith gyntaf i lawr y ffordd o fan hyn, ar falconi hen adeilad yr NCB. Mae hi'n briodol iawn fod yr adeilad hardd yma'n deyrnged iddo – dyn hynod, adeilad hynod!"*

*"Adeilad hardd, gwasanaeth rhagorol, a staff hyfryd."*

*"Mor hyfryd i bobl Tredegar a chymuned ehangach Blaenau Gwent."*

*"Rwy'n dwlu ar y ffaith fod hen ddrysau gwreiddiol yr ysbyty'n dal i fod yma - hardd iawn."*


## DIGWYDDIAD DRWS AGORED

Ar 5 Mawrth, croesawodd Canolfan Iechyd a Lles Bevan drigolion a chynrychiolwyr Cyngor Tref Tredegar am daith o gwmpas y safle a'r digwyddiad drws agored cyntaf. Bu'r daith yn gyfle i bawb weld y cyfleusterau sydd ar gael yn y ganolfan, a gofyn unrhyw gwestiynau.

Ymhlith y stondinwyr roedd Aneurin Leisure, Ymwelwyr Iechyd, y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd, Cymdeithas Sefydliadau Gwirfoddol Gwent, y Rhaglen Cleifion Arbenigol, Llais, ac Age Cymru. Paratôdd pob stondin ddeunyddiau am eu gwasanaethau, oedd ar gael i ymwelwyr eu cadw. Bu'n gyfle hefyd i'r stondinwyr rwydweithio â'i gilydd a meithrin cysylltiadau er mwyn datblygu eu gwasanaethau ymhellach.

Ymunodd The Goldies, grŵp o Dredegar, yn yr hwyl, gan berfformio caneuon i bawb eu cyd-ganu â nhw. Ymunodd KidsR Us â ni hefyd i ddangos doniau eu côr aml-genhedlaeth trwy berfformio rhai o'u caneuon newydd. Daeth y ddau berfformiad â'r ganolfan yn fyw, gan ddangos pwrpas y camau cymdeithasol a helpu i gofleidio agwedd 'lles' y ganolfan.

Byddwn ni'n cynnal digwyddiadau drws agored pellach yn y dyfodol er mwyn rhannu gwybodaeth â'r cyhoedd am y gwasanaethau sydd ar gael yng Nghanolfan Iechyd a Lles Bevan. Am ragor o fanylion neu i gymryd rhan mewn digwyddiadau yn y dyfodol, cysylltwch â: victoria.price2@wales



## GWASANAETHAU

Ers agor Canolfan Iechyd a Lles Bevan yn gynharach eleni, mae'r clinigau canlynol bellach yn gweithredu o'r ganolfan:

- Bydwreigiaeth
- Y Gwasanaeth Iechyd Meddwl i Blant a Phobl Ifanc (CAMHS)
- Gwasanaeth Cyffuriau ac Alcohol Arbenigol Aneurin Bevan
- Ymwelwyr Iechyd
- Lymffoedema
- Therapi Lleferydd ac Iaith Cymunedol
- Plant sy'n Derbyn Gofal / Nyrsys ysgol
- Awdioleg
- Deintyddiaeth